

## WARDLE, GWYLLYM LLOYD (1762? - 1833), anturwr

**Enw:** Gwyllym Lloyd Wardle

**Dyddiad geni:** 1762?

**Dyddiad marw:** 1833

**Priod:** Ellen Elizabeth Wardle (née Parry)

**Rhiant:** Catherine Lloyd Wardle (née Gwyllym)

**Rhiant:** Francis Wardle

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** anturwr

**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teithio

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

yr adroddir ei yrfa fraith yn y *D.N.B.*; fel aelod seneddol (dros Okehampton, 1807) fe'i hynodd ei hunan gan ymosod ar gontractwyr dillad i'r fyddin, ac yn fwy fyth gan ymosod (1809) ar y dug York, pencadfridog y fyddin, ymosodiad a arweiniodd i ymddiswyddiad y dug. Enillodd hyn glod diderfyn iddo ar y pryd; cyflwynwyd 'anerchiadau' iddo gan nifer mawr o drefi'r deyrnas (e.e. gan Gaerfyrddin; *Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, xxii, 16), a chafodd ryddddinasyddiaeth Llundain - un o hyrwyddwyr hynny oedd ei gydwladrwr **Robert Waithman**. Ond buan (1810) y diflannodd y poblogrwydd hwn, pan ddaeth i helyntion cyfreithiol ynglyn â Mrs. Clarke (gordderchwraig y dug York); colodd lawer o arian (a'i le yn y Senedd, yn 1812); wedi ffermio am beth amser yng Nghaint, gorfu arno ffoi i'r Cyfandir rhag ei ofynwyr. Bu farw yn Fflorens, 30 Tachwedd 1833, yn 71 oed.

Geilw cysylltiadau Wardle â Chymru am ryw gymaint o sylw. Ei dad oedd Francis Wardle, twrnai yng Nghaerlleon a welir yng gweithredu tua chanol y 18fed ganrif ynglyn â phrynu a gwerthu stadau yn Sir y Fflint. Fe brynodd ef ei hunan stad Hersedd ('Hartsheath') gerllaw'r Wyddgrug - Llwydiaid oedd yr hen berchenogion (*Archæologia Cambrensis*, 1875, 227-30; 1890, 311) - ond yng Nghaerlleon y ganwyd ei fab. Catherine Lloyd Gwyllym, merch ac aeres Richard Lloyd Gwyllym, Hersedd, oedd gwraig Francis Wardle; bu hi farw yn y Twr gerllaw'r Wyddgrug, 11 Awst 1811, yn 77 oed (*Cheshire Sheaf*, Rhagfyr 1929, 87). Ymunodd y mab yn 1794 â'r 'Antient British Fencible Cavalry,' catrawd a ffurfiwyd gan **Syr Watkin Williams-Wynn**, a bu'n brwydro yn Iwerddon o 1797 hyd 1799; yn 1796 yr oedd yn un o is-lywyddion Cymdeithas yr Hen Frutaniaid yn Llundain. Gwrthodwyd rhoi swydd iddo yn y fyddin reolaidd wedyn (ensynia pamffledwr ei fod wedi twyllo wrth brynu ceffylau i'r gatrawd), ond caniatwyd iddo radd milwriad pan ddiddymwyd y 'Fencibles.' Am rai blynyddoedd wedyn bu'n anturio yn Sir Gaernarfon. Yr oedd wedi ymbriodi ag Ellen Elizabeth Parry, un o ddwy aeres **Love Parry** o Fadryn; ei gyd-frawd-yng-nghyfraith oedd **Thomas Parry Jones** ('Jones-Parry' wedyn) o'r Llwyn Onn, Wrecsam (**J. E. Griffith**, *Pedigrees*, 224). Dywedid i Wardle (ac fe honnai yntau) gael 'stadau mawrion' gyda'r briodas hon; pan wnaed ef yn siryf Caernarfon yn 1803 disgrifir ef fel 'of Wern Fawr' (Llanbedrog), ond yn ôl **J. E. Griffith**, ei chwaer-yng-nghyfraith bioedd y Wern Fawr - drachefn, pan oedd yn siryf Môn (1802), priodolir 'Cefn Coch' yn stad iddo, ond nid ef bioedd honno. Eithr gwyddys i sicrwydd iddo brynu stad y Wern ym Mhenmorfa, hendre **Wyniaid Peniarth** (**J. E. Griffith**, op. cit., 343, ar waelod y ddalen), a dyna'r ardal y cysylltir Wardle â hi am rai blynyddoedd ar ôl 1802. Atnwyd ef (a **Jones-Parry**) i anturiaethau **W. A. Madocks**. Pan gododd **Madocks** ffatri frethyn a phandy a llwyd y Nhrefnod, yr oedd Wardle yn bartner yn y cwmni a'i gweithiai (*Gestiana*, 170, 176), a chan fod y partner arall, Scott, yn 'army clothier' yn Llundain, hawdd yw deall coegsyndod pamffledwr at ymosodiadau Wardle yn y Senedd ar gontractwyr eraill. Allforia'i'r cwmni frethyn i Ffrainc a hithau'n amser rhyfel, a phan gipiwyd un o'i longau, gyda'i llwyth, gan y llynges, aeth y cwmni'n ôl yn y byd - ensynia pamffledwr fod Wardle hefyd yn distyllu 'gin' yn Jersey ac yn ei smyglo i mewn i Loegr. Pwysicach yw'r rhan a gymerth Wardle a'r ddau arall yn y cynllun i newid y ffordd o Lundain i Ddilyn gan ddatblygu harbwr ym Mhortinllaen a chysylltu Portinllaen a Llundain (gweler *Gestiana*, 185-7); Wardle oedd cadeirydd cyfarfod cyhoeddus ym Mhwllheli yn 1808 i hyrwyddo torri'r ffordd newydd, ac yr oedd yn un o'r 'trustees.' Ond heblaw'r anffodion ariannol y cwmpodd **Madocks** a Wardle iddynt, rhoes gwrthwynebiad cyndyn Caergybi derfyn ar y bwriad hwn, a allasai fod wedi newid bywyd economaidd Sir Gaernarfon yn ddifawr. Gwerthwyd y Wern. A chaniatâu mai o eneuau gelynyon Wardle y daw amryw o'r manylion sy'n dweud yn ei erbyn, erys yr argraff nad oedd yn ddyn y gellid canmol llawer arno.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r cyfeiriadau yno

T. Farquharson, *Truth in Pursuit of Wardle being a letter, addressed to Colonel G. L. Wardle, M.P.* &€ This letter contains an exposition of Colonel Wardle's political scheme of introducing Frenchmen into the National Militia (Llundain 1810) (d.d. - copi Mr. David Thomas)

*Old Wales a monthly magazine of antiquities for Wales and the Borders* (Talybont Breconshire 1905-1907), iii, 255

gwybodaeth gan Mr. David Thomas, Bangor, ar gynllun Portinllaen

a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 72789554

Wikidata: Q18162568

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). WARDLE, GWYLLYM LLOYD (1762? - 1833), anturwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WARD-LLO-1762>

Chopio'r

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LG  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Wedi gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government